Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2023 Rhif 1336 (Cy. 241)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2023

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") yn gwneud darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys ceisiadau i gofrestru a cheisiadau i amrywio cofrestriad o dan Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016").

Rhagnodir gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig fel "gwasanaeth rheoleiddiedig" at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf 2016 gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau er mwyn integreiddio cyfeiriadau at y gwasanaeth rheoleiddiedig newydd hwn yn Rheoliadau 2017.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac fe'i cyhoeddir ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2023 Rhif 1336 (Cy. 241)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *am 5.00 p.m. ar 6 Rhagfyr 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *8 Rhagfyr 2023* |
| *Yn dod i rym* | *31 Rhagfyr 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 6(1)(d)(**1**), 11(3)(a)(iii) a 187(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Rhagfyr 2023.

### Diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017

**2.** Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 3(b), ar ôl "gwasanaeth llety diogel", mewnosoder ", gwasanaeth preswyl ysgol arbennig";

(**1**) Mae adrannau 6(1)(d) ac 11(3)(a)(iii) yn cyfeirio at "unrhyw wybodaeth arall a ragnodir". Diffinnir "a ragnodir" a "rhagnodedig" yn adran 189 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i olygu "wedi ei ragnodi drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru".

(**2**) 2016 dccc 2.

(**3**) O.S. 2017/1098 (Cy. 278). Diwygiwyd y rheoliadau hyn gan O.S. 2019/233 (Cy. 52) ac O.S. 2020/389 (Cy. 87).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) yn rheoliad 6(b), ar ôl "gwasanaeth llety diogel" mewnosoder ", gwasanaeth preswyl ysgol arbennig";

(c) yn rheoliad 7(b), ar ôl "gwasanaeth llety diogel" mewnosoder ", gwasanaeth preswyl ysgol arbennig";

(d) ym mharagraff 30 o Atodlen 1, ar ôl "gwasanaeth llety diogel" mewnosoder ", gwasanaeth preswyl ysgol arbennig";

(e) ym mharagraff 32 o Atodlen 1, ar ôl "gwasanaeth llety diogel" mewnosoder ", gwasanaeth preswyl ysgol arbennig";

(f) ar ôl paragraff (ea) o Atodlen 2 mewnosoder y paragraff canlynol—

"(eb) yn achos gwasanaeth preswyl ysgol arbennig, disgrifiad o sut y caiff y trefniadau ar gyfer darparu addysg a'r trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaeth preswyl eu cydgysylltu;";

(g) ym mharagraff (k) o Atodlen 2, ar ôl "gwasanaeth llety diogel" mewnosoder ", gwasanaeth preswyl ysgol arbennig".

*Julie Morgan*
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Am 5.00 p.m. ar 6 Rhagfyr 2023